wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

# Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol

# Rhaglen Ariannu'r Celfyddydau y Loteri Genedlaethol

Mehefin 2022

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

disability confident EMPLOYER

## Hygyrchedd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras, braille, sain, Hawdd ei Ddeall ac yn Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg ar gais.

Os oes gennych unrhyw anghenion mynediad a'ch bod yn ystyried gwneud cais, gallwn helpu i wneud yn siŵr eich bod yn cael eich cefnogi yn ystod y broses o wneud cais. Cysylltwch â ni ar grants@arts.wales i drafod sut y gallwn helpu.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Beth i'w wneud os na allwch dderbyn arian gan y Loteri Genedlaethol

Os na allwch dderbyn cyllid y Loteri am unrhyw reswm, llwythwch y llythyr gyda'ch cais ar-lein, gan esbonio pam. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn ceisio ariannu eich prosiect o arian a dderbyniwn o ffynonellau eraill.

## Croeso

Croeso i'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol, un o'n rhaglenni ariannu y Loteri Genedlaethol.

Yma fe welwch yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i baratoi eich cais. Os ydych yn gwneud cais, dylech ddarllen ein nodyn canllaw Arian y Loteri Genedlaethol: yr hyn y mae angen i chi ei wybod, ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Yma bydd yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar ein blaenoriaethau trosfwaol, cymhwysedd, costau priodol a chymorth ychwanegol sydd ar gael i helpu i gyflwyno eich cais gorau.

## Pryd i Wneud Cais a Phryd i Ddisgwyl Penderfyniad

Gallwn dderbyn ceisiadau unrhyw bryd. Byddwch yn derbyn penderfyniad o fewn 6 wythnos waith o gyflwyno cais.

Cofiwch fod angen i chi ganiatáu o leiaf 7 wythnos waith rhwng y dyddiad y gwnaethoch gyflwyno eich cais a dyddiad dechrau eich prosiect.

## Y Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol

Diben y gronfa yw:

- Cynorthwyo i ddatblygu perthnasoedd, cydweithrediadau a rhwydweithiau rhwng gweithwyr creadigol proffesiynol Cymru a sefydliadau celfyddydol a phartneriaid rhyngwladol.
- Rhannu profiadau a sgiliau drwy'r celfyddydau mewn cyd-destun rhyngwladol.
- Codi proffil Cymru a'i chysylltiadau drwy'r celfyddydau yn rhyngwladol.

Gall y gronfa gefnogi datblygiad perthnasoedd, cydweithrediadau a rhwydweithiau rhyngwladol drwy:

- Gweithgarwch mewn person a gynhelir y tu hwnt i Gymru a'r DU
- Gweithgarwch hybrid sy'n cyfuno gweithgarwch mewn person y tu allan i Gymru a'r DU a datblygiad digidol
- Llwyfannau ac offer digidol

Mae yna nifer o gyfyngiadau teithio rhyngwladol ac ansicrwydd o hyd, felly mae'n rhaid bod gennych gynlluniau wrth gefn pe na fyddai hyn yn bosibl.

Byddwn yn cefnogi pob ymgeisydd llwyddiannus i adolygu a datblygu eu cynllun prosiect a'u dadansoddiad o'r gyllideb ymhellach yn dilyn y dyfarniad.  Byddwn hefyd yn trafod datblygiad cynlluniau wrth gefn os bydd angen y rhain.

## Blaenoriaethau'r gyllideb

Blaenoriaeth y gronfa fydd buddsoddi mewn gweithgarwch sy'n cyfrannu at y canlyniadau canlynol, yn unol â'n Strategaeth Ryngwladol, Celf Cymru: yn bont o'n bro i'n byd, ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):

- datblygu a phrofi syniadau a ffyrdd newydd o weithio mewn cydweithrediad â phartner(iaid) rhyngwladol, gyda'r bwriad o gynnal partneriaethau rhyngwladol yn y tymor hwy sy'n gyfartal ac yn fuddiol i'w gilydd
- dysgu, cysylltiadau a phrofiadau a rennir drwy gyfnewidfeydd rhyngwladol sy'n fuddiol i'w gilydd
- cyfranogiad uwch mewn rhwydweithiau rhyngwladol, ffurfiol ac anffurfiol
- cydweithrediadau a phreswyliadau creadigol gyda phartner rhyngwladol, lle bydd cyfle arwyddocaol i ddatblygu arfer artistig

Rydym yn gobeithio cefnogi cydbwysedd rhwng gweithwyr creadigol proffesiynol unigol a sefydliadau celfyddydol.

Yr hyn na allwn ei gefnogi:

- Gweithgarwch nad yw'n cynnwys partner rhyngwladol sydd wedi'i leoli y tu allan i Gymru a'r DU

  Gall partner rhyngwladol fod yn:

  - cydweithredwr mewn proses greadigol
  - trefnwyr rhwydwaith neu ddigwyddiad (lle bydd y gweithgarwch arfaethedig ar gyfer ymgeisydd o Gymru i fynychu rhwydwaith neu ddigwyddiad celfyddydol neu ddiwylliannol)

- Gweithgarwch lle nad oes unrhyw gynllun wrth gefn pe na fyddai'n bosibl teithio ar y dyddiadau arfaethedig
- Prosiectau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar Gymru gydag elfen o gyfranogiad digidol gan artist neu gwmni rhyngwladol (ar gyfer y prosiectau hyn dylech gyfeirio at Creu)
- Gweithgarwch sy'n cynnwys caffael gwasanaeth cwmni neu artist rhyngwladol, yn hytrach na gweithgarwch sy'n datblygu perthynas fuddiol a chydweithredol gyda chwmni neu artist celfyddydol rhyngwladol
- Astudiaeth neu hyfforddiant ffurfiol
- Cyfranogi mewn, neu fynychu digwyddiadau cystadleuol
- Gweithgarwch sydd eisoes wedi'i gynnal
- Y costau sy'n gysylltiedig â chwarantin a phrofion Covid naill ai yn y DU neu mewn gwlad arall.  Mae'r rhain yn cynnwys:
    - costau sy'n gysylltiedig â hunanynysu cyn ac ar ôl teithio (gan gynnwys colli unrhyw incwm)
    - costau sy'n gysylltiedig â chwarantin wrth gyrraedd y wlad rydych yn teithio iddi
    - costau sy'n gysylltiedig â chwarantin ar ôl dychwelyd i Gymru
    - costau am unrhyw ddirwyon am dorri'r rheolau cwarantin
    - costau na ellir eu cynnwys mewn costau yswiriant teithio a phroffesiynol a achoswyd gan Covid.

Y mathau o brosiectau yr ydym yn awyddus i'w cefnogi:

| Rydym yn fwyaf awyddus i weld... | Yn hytrach na... | Gallai hyn fod yn... |
|---|---|---|
| Datblygu a phrofi syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio mewn cydweithrediad â phartner(iaid) rhyngwladol, gyda'r bwriad o ddatblygu partneriaethau rhyngwladol tymor hwy, cyfartal ac sy'n fuddiol i bawb.<br><br>Rhaglen gyfnewid ryngwladol sy'n rhannu dysgu, cysylltiadau a phrofiad er budd i bawb ac er budd yn ehangach i sector y celfyddydau.<br><br>Mwy o gyfranogiad mewn rhwydweithiau neu ddigwyddiadau rhyngwladol, ffurfiol ac anffurfiol. | Prosiectau wedi'u creu a'u harwain yng Nghymru a allai gynnwys cyfranogiad gan artist neu gwmni rhyngwladol fel rhan o weithgarwch ehangach yng Nghymru.<br><br>Prosiectau sy'n gwahodd y byd i Gymru, mewn person neu'n ddigidol, i brofi'r celfyddydau a diwylliant o Gymru.<br><br>Cyfleoedd dysgu a datblygiad proffesiynol wedi'u darparu gan gwmni rhyngwladol.<br><br>[Gallwch gyfeirio at ganllawiau cynlluniau eraill Cyngor y Celfyddydau] | Cyfranogiad mewn prosiectau wedi'u harwain gan artistiaid neu sefydliadau y tu allan i'r DU.<br><br>Prosiectau sy'n canolbwyntio yn bennaf ar gydweithrediadau creadigol sy'n fuddiol i bawb gydag artistiaid neu gwmnïau rhyngwladol sy'n cael eu cynnal y tu allan i'r DU neu'n ddigidol.<br><br>Cymryd rhan mewn digwyddiadau neu rwydweithiau sy'n cael eu cynnal gan bartneriaid rhyngwladol sy'n helpu i rannu'r dysgu a chreu cysylltiadau newydd. |

## Pwy all wneud cais?

Sefydliadau celfyddydol a gweithwyr creadigol proffesiynol unigol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Croesewir ceisiadau gan fentrau cydweithredol artistiaid anffurfiol neu ffurfiol, a chan sefydliadau celfyddydol sy'n cefnogi nifer o weithwyr creadigol proffesiynol unigol o Gymru fel rhan o'r prosiect. Bydd angen un partner wedi'i leoli yng Nghymru i fod yn ymgeisydd a enwir, a fydd yn derbyn cyfrifoldeb ariannol ac adrodd pe byddai'r dyfarniad yn cael ei wneud.

Gweler y nodiadau cymorth i gael gwybodaeth fanwl am feini prawf cymhwysedd a'r wybodaeth banc angenrheidiol.

## Faint sydd ar gael?

Cyfanswm y gyllideb a fydd ar gael ar gyfer y flwyddyn fydd £210,000.

Y lefel uchaf o gymorth y gellir ei rhoi fesul dyfarniad yw £7,500.

Ar gyfer y cyfranogwyr hynny yng Nghymru neu'n rhyngwladol nad ydynt yn derbyn cyflog am waith sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn, gellir cynnwys ffioedd sy'n gysylltiedig â'u cyfranogiad o fewn y gyllideb.

## Beth yw'r meini prawf sy'n berthnasol i'r gronfa hon?

Asesir ceisiadau yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Ansawdd, cryfder ac arloesedd y cynnig i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol hirdymor ac i gael effaith gadarnhaol ar arfer artistig yng Nghymru
- Ymrwymiad proffesiynol i gyfnewidfeydd a chydweithrediadau rhyngwladol sy'n deg ac yn fuddiol i'r ddwy ochr ac ymgysylltu'n weithredol â rhwydweithiau rhyngwladol
- Profiad blaenorol artistig sy'n arddangos ymrwymiad i weithio yng Nghymru ac ansawdd arfer artistig
- Ansawdd y berthynas, rhwydwaith, preswyliad neu ddigwyddiad rhyngwladol o ran nodau'r cynnig
- Ystyriaeth o'r canlynol:
    - chwarae teg i bob cyfranogwr yn y prosiect
    - y rhesymeg pam fod y prosiect yn ddigidol, mewn person neu'n hybrid
    - effaith amgylcheddol eich gweithgarwch a'ch teithio (os yw'n berthnasol)
- Y broses ddethol os yw'r prosiect yn cefnogi grŵp o ymarferwyr creadigol unigol yng Nghymru
- Hyfywedd ariannol a gwerth am arian y cynnig
- Cyfraniad i flaenoriaethau strategol ehangach Celfyddydau Rhyngwladol Cymru - Strategaeth Ryngwladol, Celf Cymru: yn bont o'n bro i'n byd - a'n hymrwymiadau i ymgysylltiad ehangach, yr Iaith Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

## Beth sy’n digwydd nesaf?

Byddwch yn derbyn penderfyniad o fewn chwech wythnos i’r dyddiad cau.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn eich cynorthwyo i adolygu a datblygu cynllun a chyllideb eich prosiect ymhellach, gan gynnwys datblygu cynllun wrth gefn, os bydd angen.

Byddwn hefyd yn gofyn i chi gyflwyno Adroddiad Cwblhau ar ddiwedd y prosiect. Rydym eisiau rhannu’r hyn a ddysgwyd o brosiectau gyda’r sector ehangach a gyda phartneriaid yn rhyngwladol, a byddwn yn defnyddio gwybodaeth o’ch adroddiad i fwydo i’r gwaith monitro a gwerthuso parhaus o ymgysylltiad rhyngwladol yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Bydd eich adborth a’ch profiadau yn hollbwysig hefyd wrth i ni ddatblygu ein dull gweithredu ar gyfer cefnogaeth yn y dyfodol.

Cofiwch fod angen i chi ganiatáu o leiaf saith wythnos waith rhwng cyflwyno a dyddiad cychwyn eich prosiect. Ni fyddwn yn derbyn eich cais os bydd dyddiad dechrau eich prosiect cyn hyn.

Mae’n rhaid i bob cais fod yn gyflawn. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw wybodaeth ategol bellach ar ôl i chi gyflwyno eich cais (oni fyddwn ni’n gofyn amdani).

## Pa gwestiynau y bydd angen i mi eu hateb

Cyn paratoi cais, mae croeso i chi gysylltu â thîm Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i drafod unrhyw syniadau. Yn yr un modd, os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â’r cwestiynau yn y ffurflen gais, neu os ydych yn dymuno trafod costau cefnogi mynediad i chi neu unrhyw un sydd â chysylltiad uniongyrchol yn datblygu a chyflawni eich prosiect, cysylltwch â ni. Rydym yma i’ch cefnogi drwy’r broses.

Bydd angen i chi gwblhau'r ffurflen gais ar-lein drwy borth newydd ar-lein Cyngor Celfyddydau Cymru; mae gwybodaeth ar gael yma.

Mae'r ffurflen gais wedi'i threfnu fel a ganlyn:

## Cysylltu â Chi

Bydd angen gwybodaeth arnom ynghylch pwy y dylid cysylltu â nhw mewn cysylltiad â'r cais.  Bydd hyn yn cynnwys:

- Eich enw neu enw a manylion cyswllt y sefydliad
- Dyddiad dechrau a gorffen eich gweithgarwch
- Y swm y gwneir cais amdano
- Dewis iaith
- Gwybodaeth cyfrif banc.

## Cynnig y Prosiect

Yn yr adran hon byddwn yn gofyn i chi roi manylion eich gweithgarwch i ni.

Rhowch grynodeb byr o'ch prosiect i ni.  Efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd y byddwn yn ei gynhyrchu ynghylch eich prosiect [uchafswm o 480 nod].

Dylech ddarparu gwybodaeth am y pwyntiau canlynol mewn cysylltiad â'ch prosiect, gan ganolbwyntio ar sut a pham eich bod yn cysylltu â'ch partner(iaid) rhyngwladol [yr uchafswm nodau ar y ffurflen yw 3000 ond gallwch lwytho dogfen ychwanegol, os bydd angen, er mwyn cwmpasu'r holl bwyntiau].

Eich gweithgarwch:

- Beth fyddwch chi'n ei wneud a pham ei fod yn bwysig i'ch arfer chi

- Beth rydych yn gobeithio ei gyflawni neu ei ddysgu o weithio gyda’ch partner(iaid) rhyngwladol a/neu o gymryd rhan yn y digwyddiad, preswyliad neu rwydwaith rhyngwladol detholedig.
- Os byddwch yn cefnogi grŵp o ymarferwyr creadigol unigol o Gymru, sut y byddwch yn dewis y cyfranogwyr a sut yr ydych yn bwriadu eu cefnogi.
- Dolen i’ch CV ac enghreifftiau o’ch gwaith diweddar.
- Dolen i CV neu wybodaeth am unrhyw bartneriaid neu gyfranogwyr o Gymru
- Eich rhesymeg dros eich gweithgarwch digidol, hybrid neu mewn person o Gymru a’r DU.
- Pa ystyriaethau rydych wedi’u gwneud ar y canlynol:
    - effaith amgylcheddol eich gweithgarwch a’ch teithio (os yw’n berthnasol) a sut mae hyn wedi dylanwadu ar benderfyniadau datblygu’r gweithgarwch a’r teithio
    - sicrhau bod pob cyfranogwr a phartner yn derbyn tâl teg
    - ar gyfer gweithgarwch creadigol, sicrhau y bydd pob partner a chyfranogwr yn elwa’n gyfartal
- Beth yw’r etifeddiaeth a’r buddiannau ehangach posibl.

Eich partner rhyngwladol:

- Enw a dolen i’ch partner(iaid) rhyngwladol, gan gynnwys CV ar gyfer unrhyw artistiaid rhyngwladol
- Gwlad/gwledydd yr ydych yn cysylltu â hi/hwy
- Gwybodaeth gryno am y partner(iaid) rhyngwladol a’ch perthynas gyda hwy.  Os yw’n brosiect creadigol, rhowch ddisgrifiad byr o sut y bydd pob un o’r partneriaid yn elwa.

## Y Celfyddydau

Bydd angen gwybodaeth arnom am yr ystod o weithgareddau celfyddydol a fydd yn rhan o'ch prosiect.

## Mathau o weithgarwch

Bydd angen gwybodaeth arnom am y mathau o weithgareddau a fydd yn rhan o'ch prosiect.

## Iaith

Byddwn yn gofyn i chi am yr effaith yr ydych yn ei gredu fydd y prosiect hwn yn ei chael ar yr Iaith Gymraeg.  Byddwn yn gofyn i chi ddisgrifio eich cynlluniau gan ddefnyddio'r geiriau cryno canlynol:

Cadarnhaol, Negyddol neu Niwtral

## Lleoliad

Byddwn n gofyn i chi ddweud wrthym lle y bydd gweithgarwch y prosiect yn cael ei gynnal.

Os yw'r gweithgarwch yn ddigidol, rhowch leoliad y cyfranogwyr o Gymru.  Gallwch hefyd roi tic 'y tu allan i'r DU'.

## Cydraddoldeb

Rhowch wybodaeth monitro cydraddoldeb i ni ar gyfer eich prosiect.

### Dogfennaeth ategol

Bydd angen rhai dogfennau penodol arnom i gefnogi eich cais:

1. Llythyr neu neges e-bost byr gan eich partner rhyngwladol sy'n nodi eu cefnogaeth i'ch prosiect a'u hymrwymiad i weithio gyda chi. Os ydynt yn darparu cymorth ariannol neu mewn nwyddau i'r prosiect, mae angen cadarnhau hynny yma.

   Os ydych yn gwneud cais am gymorth i gymryd rhan mewn digwyddiad neu rwydwaith, mae dolen i wefan berthnasol yn ddigonol.

2. Cyllideb sy'n nodi'r holl wariant ac incwm (cymorth ariannol ac mewn nwyddau) gan ddefnyddio'r templed cyllideb sydd ar gael i'w lawrlwytho yma.
3. Amserlen ddrafft ar gyfer eich prosiect neu ymweliad.
4. Dogfen barhad sy'n sôn wrthym am eich prosiect, os bydd angen gofod ychwanegol arnoch, i gwmpasu'r pwyntiau o dan yr adran 'Cynnig y Prosiect'.

## Beth os oes gennyf gwestiwn neu os oes angen cymorth mynediad arnaf?

Cysylltwch â ni

+44 29 2044 1300

info@wai.org.uk
Twitter | Facebook | Instagram

Byddwn hefyd yn cynnig sesiynau cymorth y gellir cofrestru ar eu cyfer trwy gydol y flwyddyn, a fydd yn cael eu hysbysebu drwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ar y dudalen newyddion a chyfleoedd ar ein gwefan.